| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cynghorydd Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant |
| **Dyddiad** | 12/09/2022 |
| **Swyddog Arweiniol** | Tony Ward, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi |
| **Awdur yr adroddiad** | Lowri Roberts, Rheolwr Prosiect |
| **Teitl** | Caffael Cynwysyddion ar gyfer Prosiect Ailfodelu Gwastraff |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn argymell dyfarnu contract yn uniongyrchol i ddarparu'r cynwysyddion ailgylchu sych newydd ('Trolibocs') ar gyfer cyflwyno'r model gwasanaeth gwastraff newydd (didoli ymyl palmant) o hydref 2023.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu gwybodaeth a cheisio cefnogaeth yr Aelod Arweiniol i ddyfarnu contract yn uniongyrchol i alluogi trefnu archeb ar gyfer y cynwysyddion ailgylchu sych newydd ac eitemau ategol fel a nodir yn Atodiad 1 (Eitem Rhan 2).

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod yr Aelod Arweiniol yn cymeradwyo dyfarnu contract i'r cyflenwr a ffefrir ar gyfer yr unedau Trolibocs a'r eitemau ategol ar gyfanswm cost o **£1,916,750**.

3.2. Bod y penderfyniad yn cael ei weithredu'n syth gan ystyried yr angen i drefnu archebu gyda'r cyflenwr erbyn 23 Medi. Bydd oedi wrth drefnu'r archeb yn arwain at gynnydd o ran cost unedau o ystyried ansicrwydd y farchnad / chwyddiant, a bydd hyn yn arwain at ragor o bwysau o ran cost. Yn ogystal, ni fydd oedi wrth drefnu'r archebu ar ôl mis Medi 2022 yn gwarantu'r dyddiadau danfon er mwyn dechrau

cyflwyno'r gwasanaeth newydd yn haf 2023, mae angen cyfnod arweiniol o 3-4 mis er mwyn cyflwyno'r unedau i bob aelwyd.

3.3. Bod yr Aelod Arweiniol yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 3).

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Roedd amcangyfrifon cost dechreuol a oedd wedi'u cynnwys yn yr achos busnes gwreiddiol ar gyfer caffael yr unedau Trolibocs yn dod i £1.8 miliwn, roedd hyn yn seiliedig ar gaffael dim ond 45,000 o unedau. Y costau diwygiedig yw £1,916,750 am 47,000 o unedau Trolibocs ac eitemau dros ben fe y blychau ailgylchu, caeadau ac olwynion ar y pris uned presennol, a fydd yn sefydlog am 3 blynedd nawr, os cânt eu cymeradwyo.

4.2. Ar ôl cwblhau'r rowndiau casglu newydd ar ddechrau mis Rhagfyr 2021, cadarnhawyd bod tua 43,833 o aelwydydd a fydd angen uned Trolibocs. Mae nifer fach o'r 43,833 o aelwydydd hynny'n defnyddio'r gwasanaeth sachau ar hyn o bryd, ond byddant yn symud i ddefnyddio'r Trolibocs yn y tymor canolig. Ystyrir bellach nad yw'r amcangyfrif gwreiddiol o 45,000 yn gadael digon o unedau fel rhai dros ben, mae'n bosibl y bydd angen eitemau capasiti ychwanegol hefyd ar gyfer aelwydydd mawr (h.y. blwch 70L ychwanegol) ac mae'r eitemau hyn wedi'u cyfrif yn y dyfynbris cyflenwr diwygiedig (Gweler Atodiad 1).

4.3. Rhoddwyd Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw (PIN) ar GwerthwchiGymru ym mis Mawrth 2022 i ganfod lefel y diddordeb yn y farchnad ar gyfer y contract hwn. Mynegodd dau gwmni ddiddordeb, adolygwyd cynnyrch y ddau gyflenwr, a gweld bod un cyflenwr yn bodloni gofynion technegol yr awdurdod yn llwyr. Bydd y contract yn ddyfarniad uniongyrchol oherwydd ni all unrhyw gyflenwr arall a ymatebodd i'r Hysbysiad PIN fodloni'r gofynion a nodwyd gan y gwasanaeth. Mae'r PIN yn lleihau'r risg o gael her gyfreithiol ond nid yw'n lliniaru'n llwyr yn ei erbyn. Gweler Adroddiad Eithrio yn Atodiad 2.

4.4. Oherwydd yr ansicrwydd yn y farchnad a'r hinsawdd economaidd bresennol, dim ond tan 23 Medi 2022 mae modd i'r cyflenwr gadw eu prisiau presennol. Felly, bydd y dyfynbris a ddarparwyd yn dod i ben mewn nifer o wythnosau a bydd pris uned yn

cynyddu ar ôl hyn. Bydd hyn yn arwain at bwysau sylweddol ar y gyllideb ar gyfer y prosiect wrth symud ymlaen pe bai oedi gyda'r archeb.

4.5. Oherwydd y nifer fawr o unedau mae'r sefydliad yn eu harchebu, mae risg ychwanegol y bydd archeb hwyrach yn golygu na all y cyflenwr ddarparu pob un o'r unedau gofynnol o fewn y terfynau amser ar gyfer newid a chyflwyno'r gwasanaeth yn ystod haf 2023. Mae'r risg hon wedi'i chadarnhau gan y cyflenwr.

4.6. Fel rhan o'r contract, ac i leihau pris unedau'n gyffredinol, bydd y darparwr yn casglu ac ailgylchu'r biniau glas presennol. Yn ogystal, bydd y contract yn cynnwys cadw pris presennol unedau ar gyfer Trolibocs am 3 blynedd, i'n diogelu rhag cynnydd o ran costau deunyddiau crai.

4.7. Y gyllideb gyffredinol ar gyfer cynwysyddion (heb ei gyfyngu i brynu Trolibocs ond yn cynnwys pob cynhwysydd gofynnol i gefnogi'r newid gwasanaeth yw £3.4 miliwn. Oherwydd newidiadau o ran cost unedau ar y farchnad, ac adolygiad a wnaed gan y tîm gweithredol i sicrhau bod digon o eitemau ar gael, mae bwlch ariannu / pwysau cyffredinol o £210,000 yn y dyraniad cyllid, fodd bynnag, gweler Ddatganiad y Prif Swyddog Cyllid i gael rhagor o wybodaeth.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Er heb ei grybwyll yn uniongyrchol o fewn y Cynllun Corfforaethol presennol, mae'r newidiadau a gynlluniwyd ar gyfer casglu gwastraff o aelwydydd yn cael effaith bositif ar Flaenoriaeth Gorfforaethol, “Yr Amgylchedd: Deniadol ac wedi'i Ddiogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd”. Bydd yn cynyddu nifer ac ansawdd y system ailgylchu a gesglir o aelwydydd, ac yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer ailgylchu dolen gaeedig. Bydd hefyd yn galluogi i ehangu busnesau lleol o bosib, gan arwain at gyfleoedd cyflogaeth a thwf economaidd.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Cost dyfarnu'r contract yw cyfanswm o **£1,916,750.**Gweler Atodiad 1 (Rhan 2) i gael manylion cyllideb ac ariannu a datganiad y Prif Swyddog Cyllid yn adran 9 yr adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth i ddyfarnu cynwysyddion Trolibocs ar gyfer ailddylunio'r gwasanaeth gwastraff. Gweler Atodiad 3 am wybodaeth bellach ar yr Asesiad o'r Effaith ar Les sy'n cael ei gyflawni ar gyfer yr holl Ailfodelu Gwasanaeth Gwastraff lle mae'r datblygiad ar gyfer Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd yn elfen allweddol i gefnogi'r model ar gyfer gwasanaethau newydd arfaethedig. Mae canlyniad terfynol yr Asesiad o'r Effaith ar Les yn bositif.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r Bwrdd Prosiect wedi'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Yr Amgylchedd a'r Economi (sy'n gweithredu fel Swyddog Gweithredol Prosiectau) ac yn cyfarfod tua unwaith y mis, ac ym mhob Bwrdd Prosiect mae'n diweddaru ar y risg ac mae'r safle bresennol o ran costau yn cael eu cyflwyno i'w hadolygu a'u gweithredu fel bo'r angen.

8.2. Cafodd yr egwyddor gyffredinol o symud at fodel darparu gwasanaeth gwastraff newydd, gan gynnwys darparu cynwysyddion didoli ailgylchu ymyl palmant newydd, ei chymeradwyo i ddechrau yn y Grŵp Gwella Gwasanaeth a'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2018 ac mae diweddariadau dilynol wedi'u cyflwyno yn y Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Hydref 2019 a mis Mai 2021 a'r Sesiwn Briffio'r Cabinet ym mis Mawrth 2021.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Bydd y penderfyniad i ddyfarnu'r contract hwn yn creu pwysau ar gyllideb gyfalaf y prosiect o tua £209,000. Fodd bynnag, yn dilyn adolygiad pellach o'r achos busnes refeniw parhaus (yn dilyn cynnydd o ran incwm a ragfynegir), rwy'n ffyddiog y gellir cynyddu elfen ddarbodus y gyllideb honno er mwyn darparu ar gyfer y costau cyfalaf ychwanegol hyn. Felly, gellir cynnwys y costau yng nghwmpas cyffredinol y prosiect. Ar y sail honno, ac i gydnabod pwysigrwydd y dyfarniad hwn i lwyddiant y prosiect, caiff y penderfyniad ei gefnogi'n llawn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Risg na fydd cyflenwyr yn gallu darparu’r cynwysyddion Trolibocs o fewn y terfyn amser gofynnol. Mae’r farchnad dan bwysau ar hyn o bryd oherwydd yr hinsawdd economaidd a phrinder deunyddiau’n fyd-eang. Mae’n bosibl y bydd pwysau allanol arall yn effeithio ar gyflenwyr hefyd. Byddai’r effaith yn fawr, felly rydym yn cynnig dyfarnu’r contract yn syth, pe bai’n cael ei gymeradwyo gan y Cabinet.

10.2. Risg bod y pwysau parhaus a newidiol ar y farchnad fyd-eang yn rhoi pwysau ar gostau yn y dyfodol a risg y bydd caffael y cynwysyddion yn mynd tu hwnt i’r costau dangosol presennol, a dyna pam argymhellir gweithredu’r penderfyniad yn syth.

10.3. Mae pwysau o ran cost yn cael eu trin o fewn y prosiect ac o fewn cyllideb y cynwysyddion, sef £3.4 miliwn. Mae cynnydd o ran costau unedau ac adolygiad o ofynion gweithredol wedi golygu bod bwlch ariannu o tua £210,000 yn y gyllideb bellach. Mae rhagor o eitemau i gael eu caffael yn ogystal â’r dyfarniad hwn a bydd y gwasanaeth yn cael dyfynbrisiau ar gyfer yr eitemau hyn cyn hir, ond bydd hyn yn bwysau arall o ran cost.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Pwerau a ddirprwywyd i'r Aelod Arweiniol fel y nodir yn Atodiad 2(b) Adran 13 Cynllun Dirprwyo Aelodau yng Nghyfansoddiad y Cyngor.